



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu
Cyffredinol**

Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe

Dydd Gwener, 13 Mawrth 2020 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

J P Curtice
C L Philpott

Y Cyngorydd(wyr)

N J Davies
L G Thomas

Y Cyngorydd(wyr)

H M Morris
L V Walton

Swyddog(ion)

Yvonne Lewis
Richard Jenkins
Samantha Woon
Craig Davies

Arweinydd Tîm, Trwyddedu
Licensing Officer
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Lawyer

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): C Anderson, P Downing, S J Gallagher, P Lloyd a/ac
B J Rowlands

62 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

63 Cofnodion:

Penderfynwyd cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020 yn gofnod cywir.

64 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais yn Brifathro i Drwyddedu Cerbyd Hurio Preifat - Driving Miss Daisy Ltd.

Cynghorodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu fod cais wedi'i dderbyn mewn egwyddor gan Miss Cherry Simmonds, Cyfarwyddwr Gweithrediadau 'Driving Miss Daisy Ltd.', i drwyddedu cerbydau glas hygyrch i gadeiriau olwyn fel cerbydau hurio preifat.

Cynigwyd bod y cerbydau hefyd yn arddangos llygad y dydd gwyn ar y bonet flaen a llygad y dydd gwyn ar bob drws blaen, o dan y ffenestri, manylion y cwmni a rhif ffôn ar y ddau ddrws cefn o dan y ffenestri, llygad y dydd gwyn ar bob panel cefn a llygad y dydd gwyn ac arwyddion ar gefn y cerbyd.

Ni fyddai'r cerbydau a'r arwyddion arfaethedig felly'n cydymffurfio â meini prawf trwyddedu presennol y cyngor mewn perthynas â'r lliw a'r canllawiau ar gyfer hysbysebu.

Nododd yr aelodau y ddeddfwriaeth mewn perthynas â thrwyddedu cerbydau hurio preifat, amodau/meini prawf cerbydau hurio preifat presennol, materion i'w hystyried/pryderon ac argymhellion.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Rhoddodd Prif Weithredwr 'Driving Miss Daisy UK' drosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan y cwmni. Manylodd ar y gwerthoedd a'r rhesymau dros ddefnyddio 'Driving Miss Daisy'.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i Brif Weithredwr 'Driving Miss Daisy UK', a ymatebodd yn briodol.

Derbyniodd yr aelodau gyngor cyfreithiol mewn sesiwn gaeëdig.

Penderfynwyd y byddai'r cais, mewn egwyddor, yn cael ei **wrthod**.

Rheswm dros y Penderfyniad

Teimlodd yr aelodau y byddai cyflwyno cerbyd lliw glas i'w defnyddio fel cerbyd hurio preifat o bosib yn tansellio ac yn cael effaith niweidiol ar y gofynion lliw sefydledig presennol a gyflwynwyd fel mesur diogelwch cyhoeddus ac a dderbyniwyd yn fasnachol.

65 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel a nodir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

(Sesiwn Gaeëdig)

66 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - JAG.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â JAG.

Esboniodd JAG, yng nghwmni Mr J, Eastside Cabs, yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Penderfynwyd gwrthod cais JAG am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat gan nad oedd JAG wedi sicrhau'r aelodau ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

67 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Yrru Gyfyngedig ar gyfer Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - SLLD.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag SLLD.

Esboniodd SLLD yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Penderfynwyd cymeradwyo cais SLLD am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat cyfyngedig.

68 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - SLP.

Cynghorodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu fod bathodyn a thrwydded SLP wedi'u dychwelyd ers llunio'r adroddiad ac felly nid oedd angen ystyried y mater.

69 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Adnewyddu Trwydded Cerbyd Hacni - SAT.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â SAT.

Esboniodd SAT yr amgylchiadau mewn perthynas â'r troseddau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Penderfynwyd gwrthod cais SAT am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat gan nad oedd SAT wedi sicrhau'r aelodau ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.14 pm

Cadeirydd